Cenn@d

18 Tachwedd 2026

Rhifyn 299

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

Cyhoeddi cyfrol gwerth chweil, *Heb Os...*

Mewn cyfarfod yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin, bnawn Sadwrn, 31 Hydref, lansiwyd cyfrol ddiweddaraf y Parch. Desmond Davies. Yn dilyn llwyddiant *Y Tir Ysgythrog*, a gyhoeddwyd ganddo rai blynyddoedd yn ôl, aeth ati i lunio dilyniant iddi, sef ail gasgliad o bregethau ac emynau. Braf oedd gweld y festri yn gyfforddus lawn, a phawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i gydnabod a diolch i Desmond am ei waith.



Aled Davies, Eryl Pritchard, Desmond Davies, Helen Gibbon a Tudur Dylan Jones



Y gynulleidfa yn canu'r emyn newydd o waith Desmond

Cafwyd gair o groeso a chyflwyniad gan Aled Davies ar ran Cyhoeddiadau'r Gair, oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r gyfrol. Cyflwynwyd copïau o'r gyfrol i dri pherson: i Desmond ei hun fel yr awdur; i Mair Jones Parry, y golygydd, oedd wedi teithio o Lanystumdwy yn arbennig i fod yno; a hefyd i Eryl Pritchard ar ran Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans a fu o gymorth yn noddi'r gyfrol.

Yn ei ymateb, diolchodd Desmond i Aled a hefyd i Rhys Llwyd am ei waith graenus yn dylunio'r clawr, i Mair am ei gofal arbennig o'r ramadeg a hefyd i'r Ymddiriedolaeth am eu nawdd.

Fe aeth Desmond ymlaen i gyflwyno'r gyfrol er cof am ei ffrind annwyl, sef y Parch. Gareth Edwards, a fu farw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Roedd Desmond a Gareth wedi bod yn ffrindiau da gydol oes, ac roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflwyno'r gyfrol er cof amdano. Eglurodd fod y gyfrol wedi ei chreu yn bennaf at ddefnydd yr eglwysi, a rhannodd bytiau o'i chynnwys.

Nid yn aml y mae awdur yn cael ei gyfarch gan Archdderwydd a darpar Archdderwydd, ond dyna a ddigwyddodd yn festri'r Tabernacl, wrth i Tudur Dylan ddarllen englynion cyfarch i'r awdur, un o'i waith ei hun ac un arall gan Mererid Hopwood, sydd i'w weld ar gefn clawr y gyfrol.

Ceir casgliad o emynau gwreiddiol hefyd yn y gyfrol, a chafwyd cyfle i glywed dau ohonynt yn cael eu canu gan Helen Gibbon, gyda Meredith Edwards yn cyfeilio, sef 'Emyn y Galon' ac 'Y Tri Hyn', cyn i bawb oedd yn bresennol ymuno i ganu'r emyn olaf, sef 'O Iesu, gyfoeswr yr oesau'.

Cafwyd gair i gloi gan Aled, a gwahoddwyd pawb i brynu'r gyfrol ac ymlacio dros baned a sgwrs, wedi ei baratoi gan chwiorydd y Tabernacl.

Mae'r gyfrol *Heb Os...* bellach ar gael yn y siopau, pris £9.99.

Rhaid cael Noddfa — Tudalen 2

Penwythnos Esgyn — Tudalen 3

Y Comisiwn Mawr - Cynan Llwyd — Tudalen 4

Rhaid Cael Noddfa – ymateb i'r cynhyrchiad

Bu cryn ymateb i'r cynhyrchiad *Rhaid Cael Noddfa*, a gyflwynwyd yng Nghaernarfon ym mis Hydref. Roedd llawer o waith paratoi wedi bod tu cefn i'r cynhyrchiad dramatig hwn, oedd yn adrodd hanes sefydlu'r eglwys ar Stad Ysgubor Goch yn y dref 70 mlynedd yn ôl. Daeth llawer o elfennau ynghyd, fel y dywedodd Bryn Williams, a fu'n gwylio'r cynhyrchiad: 'Gwrthrych eithriadol, sgript arbennig, actio eneiniedig ynghyd ag ymateb cynnes ac emosiynol y gynulleidfa'.

Dyma rai o'r ymatebion a rannwyd yn dilyn y cynhyrchiad:

Braint ac anrhydedd oedd cael portreadu Sister Emily yn y ddrama *Rhaid Cael Noddfa*, a lwyfannwyd fel rhan o ddathliadau 70 mlynedd Noddfa ym mis Hydref.

Roedd Emily Roberts yn ddynes o flaen ei hamser, yn wreiddiol o ardal Edeirnion ac yn aelod o'r Forward Movement. Daeth i fyw a gweithio ar stad Ysgubor Goch, Caernarfon, yn 1955. Yn fuan ar ôl symud yno, gwelodd yr angen i sefydlu eglwys yng nghanol y gymuned er mwyn cefnogi'r trigolion.

A dyna'n union a wnaeth, gyda ffydd, penderfyniad a dyfalbarhad. Llwyddodd i gael gafael ar gapel sinc ail-law ym Mhorthmadog a'i gludo i'r stad, ac ychydig flynyddoedd wedyn adeiladwyd yr adeilad sydd yno heddiw. Mae Noddfa bellach yn ganolfan gymunedol, ac yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned.

Ar lefel bersonol, braf iawn oedd dychwelyd yno i weithio, ar ôl blynyddoedd gyda Cofis Bach yn cyfarwyddo cynyrchiadau cymunedol fel *Cofi Opera*, *Tocyn i Ble?* a mwy.

Diolch o galon i Mererid Mair am y weledigaeth a'r gerddoriaeth ar gyfer *Rhaid Cael Noddfa*, i Iola Ynyr am y sgript hyfryd a'r cyfarwyddo gofalus, ac i'r anwylaf un, Cynan Glyn, a chwaraeodd ran y plentyn yn y ddrama. Roedd gwaith ymysg plant a pobl ifanc yn ganolog i stori Sister Emily.

Hir oes i Noddfa ac i waddol Sister Emily Roberts. Pen-blwydd hapus 70, Noddfa!

Siwan Llynor



Siwan Llynor yn protreadu'r Chwaer Emily

Ro'n i'n falch o gael y cyfle i wylio'r ddrama *Rhaid Cael Noddfa* ddoe – digwyddiad i ddathlu pen-blwydd Eglwys Noddfa, Caernarfon, yn 70 oed.

Drama gan Iola Ynyr ydi hi, gyda Siwan Llynor yn chwarae Sister Emily, sylfaenydd Eglwys Noddfa, a'r hogyn lleol Cynan Glyn Jones yn chwarae'r brif ran arall; da iawn ti, Cynan!

Mererid Mair yw'r cyfarwyddwr cerdd ac mae hi hefyd i'w gweld ar y llwyfan, ac mae'r cyfanwaith yn gweithio'n berffaith.

Daeth Sister Emily i fyw a gweithio yn stad Ysgubor Goch yn 1955. Ar y dechrau byddai'n mynd â phlant i'r capeli yn y dref, ond daeth i'r farn yn fuan iawn y dylid cael capel ar y stad. Yn 1956, clywodd fod Capel Sinc y Wesleaid ym Mhorthmadog yn cau ei ddrysau, a threfnodd i'w gario i Gaernarfon ar gefn trelars a'i osod lle mae Noddfa heddiw.

Gweithiodd i godi arian gan bobl leol a'r eglwys ar gyfer adeilad mwy parhaol, ac yn 1966 agorwyd y Noddfa newydd.

Hyd heddiw, mae'r ysbryd cymunedol yn bwysig a staff y ganolfan yn cynnig cymorth o bob math i drigolion lleol.

Mi fydd y ddrama ardderchog yma'n teithio ysgolion Caernarfon dros y dyddiau nesaf – llongyfarchiadau i'r tîm i gyd.

Beca Brown, AS Cymru



Iola Ynyr, Siwan Llynor, Mererid Mair a Beca Brown

Mi es i a Lynne i weld y ddrama *Rhaid Cael Noddfa* neithiwr, rhan o ddathliadau 70 mlynedd Eglwys Noddfa, Caernarfon.

Drama arbennig iawn oedd hi, yn adrodd hanes sefydlu Noddfa yn 1956, ac yn ein hatgoffa o bwysigrwydd yr eglwys a'r cyfraniad mae hi wedi'i wneud i fywyd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol Caernarfon dros y blynyddoedd.

Llongyfarchiadau mawr i Iola Ynyr am y sgript ac am gyfarwyddo, ac i'r actorion Siwan Llynor, Cynan Glyn Jones a Mererid Mair am eu perfformiadau gwych.

Diolch hefyd i bawb arall fu'n rhan o'r cynhyrchiad, gan gynnwys Lois Prys am y gwisgoedd a'r cynllunio.

Roedd hi'n noson arbennig, llawn cynhesrwydd a hiwmor, ac yn ffordd hyfryd o ddathlu 70 mlynedd o gyfraniad Noddfa i fywyd Caernarfon.

Da iawn chi i gyd!

Olaf Cai Larsen

Ym mis Medi eleni, cafodd penwythnos cyntaf erioed Esgyn+ i ieuenctid 16–21 oed ei lansio. Sioned Graves sy'n rhoi chydig o flas y penwythnos inni …



'I ddechrau, roeddwn i'n wirioneddol ofnus – a go iawn yn credu y byddwn i'n marw! Ond yna, fe weddïais i ac ildio i Dduw mewn ffordd, ac yn sydyn doeddwn i ddim mor ofnus! Ar ôl hynny, bob tro y byddai ton fawr yn dod tuag ataf fi, roedd hi fel petawn i'n gwybod ei fod E'n fy nal i yn ei ddwylo, a 'mod i'n ddiogel.'

Beth sy'n digwydd pan mae naw o bobl ifanc o dair eglwys wahanol yn mynd am dair noson i rywle nad ydyn nhw erioed wedi bod o'r blaen, yn gwneud pethau beiddgar nad ydynt efallai erioed wedi cael y cyfle i'w gwneud o'r blaen, ac yn gofyn cwestiynau nad ydynt fel arfer yn eu gofyn yn eu bywydau bob dydd?

A hefyd – eu bod yn mynd gyda'r bwriad o fynd ymhellach yn eu taith ffydd? Yr ateb – pe baech yn gofyn i rai o'r bobl ifanc hynny – yw bod Duw ar waith!

Ym mis Medi, fe wnaeth criw o bobl ifanc ac arweinwyr yn union hynny, a theithio i Dyddewi ar gyfer y penwythnos Esgyn+ cyntaf erioed. Lansiwyd Esgyn yn gyntaf yn 2024 gan dîm dwyieithog a ffurfiwyd o bob rhan o deulu UBC gyda'r bwriad o roi lle i bobl ifanc gael amser gwych gyda'i gilydd, adeiladu cyfeillgarwch ac archwilio antur dilyn Iesu.

Dyw'r 'archwilio' hwn, mae'n debyg, ddim yn unig yn golygu cwrdd â Duw mewn cyfnodau gwych o ddysgeidiaeth neu addoli neu weithgareddau grŵp, ond mae hefyd bob amser wedi cynnwys profiadau eithaf anhygoel yn yr awyr agored. Yno, mae'n ymddangos bod yr Arglwydd yn dal i garu datgelu ei ogoniant a'i ddaioni – ymhell ar ôl i'r disgyblion brofi rhywbeth heb fod yn rhy annhebyg mewn cwch stormus yng Ngalilea!

Nid oedd Esgyn+ yn wahanol – gyda'r eithriad ei fod yn amser wedi'i neilltuo i bobl ifanc 16–21 oed sydd am fynd yn ddyfnach yn eu taith ffydd.

Un o'r caneuon a ganwyd ar ddiwrnod olaf Esgyn+ oedd 'Fy Iesu, 'ngwaredwr'. Roedd ystyr hollol newydd i'r geiriau 'plyga'r mynyddoedd a rhua'r môr' i 14 o'r bobl ifanc ac arweinwyr oedd wedi mentro allan i arfordir gogledd sir Benfro ychydig ddyddiau cyn hynny gyda thîm o TYF Outdoors i brofi rhuo a thaflu'r môr yn llythrennol wrth iddynt gael eu harwain dros glogwyni a thrwy donnau'r môr.

Wedi dweud hynny, doedd Esgyn+ ddim i gyd yn ddramatig! Roedd y penwythnos yn Nhyddewi eleni yn cynnwys profiadau mor amrywiol â *marshmallows* a gitâr o amgylch y tân, adegau o dawelwch a myfyrio mewn lleoliad hyfryd, cael croeso gan arweinwyr eglwys leol y Groesfan gyda *lasagne* cartref, mynd i'r traeth lleol (saith munud i ffwrdd!), a chrwydro o gwmpas Tyddewi gyda hufen iâ.

Roedd yr amserau llai dwys yn sicr wedi'u cytbwyso o ran ansawdd, ac yn dangos awydd gwirioneddol y bobl ifanc i archwilio mwy o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw fel disgyblion i Grist yn y genhedlaeth hon. Cawsom fendith hyfryd hefyd wrth ddysgu oddi wrth rai o brofiadau ffydd go iawn tîm Esgyn+, yn ogystal â chlywed safbwyntiau a phrofiadau anhygoel gan BMS World Mission, drwy law Orla Moxon oedd yn cynrychioli BMS ar y penwythnos.

Rhai o'r cyfnodau cyfoethocaf a mwyaf rhyfeddol o ddysgu dros y penwythnos, fodd bynnag, oedd pan oedd y bobl ifanc yn gallu rhannu ac archwilio'u meddyliau eu hunain am sut roedd Duw wedi bod yn siarad â nhw – drwy'r Beibl, drwy adegau o fawl, a thrwy rai o'r profiadau anhygoel a gawsant wrth archwilio'r arfordir ar y dydd Sadwrn.

Dyna pryd glywsom ni gan rai o'r merched – nad oeddent erioed wedi gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen ond (yn llythrennol!) wedi cymryd camau ffydd i oresgyn eu hofn. Yn y broses roeddent wedi darganfod bod yr Arglwydd wir yn golygu'r hyn a ddywedodd: pan fyddent yn 'mynd trwy'r dyfroedd' (Eseia 43:2), y byddai Ef gyda nhw.

A oedd Esgyn+ yn benwythnos i'w gofio i ni a oedd yno? Yn bendant, oedd.



‘Mae’r Comisiwn Mawr yn rhy fawr i un garfan yn unig’

y drydedd erthygl mewn cyfres gan Cynan Llwyd

Mae’r angen am genhadu yn rhy ddybryd i eglwysi ymddwyn fel cystadleuwyr.

Un o’r pethau rhyfeddaf am yr eglwys fodern yw pa mor hawdd y gallwn ymddwyn fel pe bai eglwysi eraill yn cystadlu yn ein herbyn. Er hynny, mae’n debyg na fyddem byth yn cyfaddef hynny’n uchel! Rydym yn gyfarwydd â’r iaith ddiwinyddol gywir. Rydym yn sôn am gorff Crist, teyrnas Duw a’n cenhadaeth gyffredin. Ond, o dan yr wyneb, gall greddf arall gydio ynom.

Faint o bobl sy’n mynd i’w heglwys nhw? Pam mae’r gynulleidfa newydd yna’n tyfu’n gynt na’n cynulleidfa ni? Pam mae pobl yn mynd i’w digwyddiad nhw yn hytrach nag i’n digwyddiad ni?

Pwy sydd â’r gwaith ieuenctid cryfaf? Addoliad pwy sy’n denu pobl iau? Pwy sydd â’r presenoldeb gorau ar y cyfryngau cymdeithasol? Pa eglwys ddenodd y dorf fwyaf i’w gwasanaeth Nadolig?

Heb i ni sylweddoli, gall eglwysi anghofio’u bod yn rhannau o’r un corff a dechrau ymddwyn fel sefydliadau cystadleuol sy’n brwydro am gyfran o’r farchnad.

Ond mae’r Comisiwn Mawr yn fwy nag unrhyw gynulleidfa, rhwydwaith, traddodiad neu enwad unigol.

Ni ddywedodd Iesu wrthym am adeiladu ein brand. Dywedodd wrthym am wneud disgyblion.

Mae’r gwahaniaeth hwnnw’n bwysig.

Yn Mathew 28, mae’r Crist atgyfodedig yn anfon ei ddilynwyr â’r geiriau ‘gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd’. Mae ehangder y comisiwn yn syfrdanol. Mae’n croesi ffiniau daearyddol, diwylliannol, ieithyddol ac ethnig, ac yn pontio’r cenedlaethau. Galwad ydyw i gyhoeddi teyrnasiad Crist, i fedyddio pobl yn enw’r Drindod, a’u dysgu i ufuddhau i bopeth a orchmynnodd Iesu.
Ni all unrhyw gynulleidfa gyflawni’r alwad honno ar ei phen ei hun.
Ni all unrhyw enwad wneud hynny.
Ni all unrhyw fudiad wneud hynny chwaith.

Yn syml, mae cenhadaeth Duw yn rhy fawr i un garfan.

Dylai hynny fod yn amlwg, ac eto gall llawer yn ein diwylliant eglwysig awgrymu fel arall. Rydym yn rhoi egni aruthrol i gynnal ein strwythurau, ein rhaglenni a’n hunaniaeth ein hunain. Rydym yn dyblygu prosiectau y mae eglwys arall i lawr y ffordd eisoes yn eu cynnal. Rydym yn cystadlu am wirfoddolwyr, cyllid a sylw. Weithiau rydym yn trin pobl sy’n symud o un gynulleidfa i’r llall fel pe bai teyrnas Duw wedi ennill neu golli tir, yn dibynnu ar ba eglwys y maent yn ei mynychu.

Mae rhywbeth sylfaenol o’i le ar y darlun hwn.

Os yw’r eglwys yr ochr arall i’r dref yn cyhoeddi Crist yn ffyddlon, yn gwasanaethu ei chymuned, yn croesawu pobl, yn meithrin credinwyr newydd yn ddisgyblion, ac yn ceisio teyrnas Duw, yna dylai ffrwyth ei gwaith fod yn achos diolchgarwch, nid cenfigen.

Nid methiant i ni yw eu llwyddiant nhw. Nid nhw yw’r gwrthwynebwyr.

Yr hyn yr ydym yn ei wrthwynebu yw anobaith, anghrediniaeth, unigrwydd, anghyfiawnder, tlodi, caethiwed, diffyg gobaith, trais, a’r holl rymoedd sy’n tanseilio bywyd dynol ac yn cuddio newyddion da Iesu Grist.

Nid gelyn yw’r eglwys i lawr y ffordd. Mae’n rhan o’r un genhadaeth. Ac mae hyn yn bwysicach nag erioed mewn diwylliant lle na all Cristnogaeth gymryd safle blaenllaw mewn cymdeithas yn ganiataol mwyach.

Ar draws Cymru, mae’r eglwys yn byw mewn cymdeithas dameidiog a chynyddol seciwlar. Ychydig iawn o gyswllt ystyrlon â’r ffydd Gristnogol sydd gan lawer o bobl. Mae eraill yn amheus, neu wedi cael profiadau poenus o’r eglwys. Ni ellir cymryd gwybodaeth am y Beibl yn ganiataol, hyd yn oed o fewn ein heglwysi. Mae angen esbonio fwyfwy yr iaith Gristnogol a oedd unwaith yn ddealladwy i’r gymdeithas ehangach.



Yn y cyd-destun hwnnw, mae cystadlu rhwng eglwysi’n edrych yn arbennig o hurt.

Os yw cymunedau cyfan yn tyfu i fyny heb ddod i gysylltiad ystyrlon â’r stori Gristnogol, pam fyddai eglwysi’n gwario cymaint o egni’n cystadlu â’i gilydd am y nifer cymharol fach o bobl sydd eisoes yn perthyn iddynt?

Mae’r angen am genhadu yn rhy ddybryd i hynny.

O edrych arni fel hyn, nid strwythurau sefydliadol yw prif bwnc eciwmeniaeth. Cenhadaeth sydd wrth ei gwraidd.

Mae’n gofyn cwestiwn syml: beth allwn ni ei wneud gyda’n gilydd er mwyn yr efengyl na allwn ei wneud mor effeithiol ar ein pennau ein hunain?

Weithiau, efengylu fydd yr ateb. Gall eglwysi gydweithio mewn digwyddiadau cyhoeddus, cyrsiau, gwaith estyn allan, caplaniaeth, ysgolion, prifysgolion, gwyliau neu brosiectau cymunedol. Weithiau gall presenoldeb Cristnogol unedig agor drysau a fyddai’n aros ynghau i gynulleidfa unigol sy’n gweithio ar ei phen ei hun.

Weithiau, gweddi fydd yr ateb. Mae rhywbeth grymus iawn am Gristnogion o wahanol draddodiadau’n dod ynghyd, yn syml, i geisio Duw. Cyn llunio strategaethau, rhaglenni neu ddatganiadau, gallwn weddïo dros ein trefi, ein pentrefi a’n dinasoedd. Gallwn weddïo am ddiwygiad, adnewyddiad, cyfiawnder, cymod ac iachawdwriaeth y rhai nad ydynt eto’n adnabod Crist.

Mae gweddi’n ein hatgoffa i bwy mae’r genhadaeth yn perthyn. Nid ein cenhadaeth ni mohoni; cenhadaeth Duw ydyw.

Weithiau, byddwn yn cydweithio drwy brosiectau cymunedol. Mae banciau bwyd, cyngor ar ddyledion, gwaith gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, cymorth i deuluoedd, prosiectau digartrefedd, gwaith ieuenctid, gofal pobl hŷn, mentrau iechyd meddwl, a llu o ffurfiau eraill ar wasanaeth Cristnogol yn aml yn gryfach pan fo eglwysi'n cydweithio. Anaml y mae anghenion cymuned yn ffitio'n daclus o fewn ffiniau enwadol.

Ni ddylai ein tosturi gael ei gyfyngu ganddynt chwaith.

Ac weithiau mae angen i eglwysi siarad gyda'i gilydd yn gyhoeddus. Nid oes angen i gymdeithas ranedig glywed deg eglwys yn cyhoeddi deg datganiad ychydig yn wahanol pan y gall Cristnogion siarad ag un llais clir am urddas dynol, heddwch, cyfiawnder, tlodi, gofal am y greadigaeth, neu bryder am y rhai sy'n agored i niwed.

Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i eglwysi gytuno am bopeth cyn gallu cydweithio. Un o'r pethau sy'n cael ei gamddeall fwyaf am eciwmeniaeth yw'r dybiaeth fod cydweithio'n golygu colli hunaniaeth.

Nid felly y mae.

Nid yw eglwys Fedyddiedig yn peidio â bod yn Fedyddiedig am ei bod yn ymuno â Phentecostiaid ac Anglicaniaid mewn gweddi. Nid yw cynulleidfa efengylaidd garismataidd yn cefnu ar ei hargyhoeddiadau am ei bod yn gweithio ochr yn ochr â Chatholigion ar brosiect digartrefedd. Nid yw Presbyteriad yn ildio diwinyddiaeth Ddiwygiedig wrth rannu mewn gweithred gyhoeddus o dystiolaeth Gristnogol gyda Methodistiaid.

Nid unffurfiaeth yw undod Cristnogol. Nid yw corff Crist yn cael ei gryfhau drwy wneud pob rhan yr un fath.

Mae delwedd Paul yn 1 Corinthiaid 12 yn parhau'n un o'r darluniau mwyaf grymus o'r bywyd Cristnogol. Mae'r corff yn cynnwys llawer o rannau. Nid oes angen i'r llygad droi'n llaw er mwyn perthyn. Nid yw'r glust yn bygwth y droed am ei bod yn wahanol. Mae amrywiaeth y corff yn rhan o'i gryfder.

Mae'r broblem yn dechrau pan fydd y llygad yn penderfynu nad oes arno angen y llaw. Neu efallai, yn ein cyd-destun ni, pan fydd y llygad yn sefydlu gweinidogaeth newydd i gystadlu â'r llaw.

Mae rhywbeth bron yn ddigrif am faint o ddyblygu sy'n digwydd ym mywyd yr eglwys. Gallai dwy eglwys ychydig strydoedd oddi wrth ei gilydd fod yn ei chael hi'n anodd cynnal gwaith ieuenctid, y ddwy'n brin o wirfoddolwyr, y ddwy heb ddigon o adnoddau, a'r ddwy'n gweddïo am i'w gwaith gael mwy o effaith — heb ystyried o gwbl y posibilrwydd o wneud rhywbeth gyda'i gilydd.

Yn aml, rydym yn sôn am stiwardiaeth dda mewn perthynas â chyllid personol. Efallai fod angen inni feddwl mwy am stiwardiaeth adnoddau'r eglwys yn eu cyfanrwydd.

Beth fyddai'n ei olygu inni stiwardio ein hadeiladau gyda'n gilydd?

Neu arbenigedd ein staff? Neu ein gwirfoddolwyr?

Neu ein hoffer? Neu ein harian?

Neu ein perthynas ag ysgolion a sefydliadau lleol?

Nid ystum eciwmenaidd braf yn unig yw cydweithio. Weithiau, yn syml iawn, mae'n ffordd ddoeth o genhadu. Yn bwysicach fyth, mae'n dystiolaeth.

Gweddïodd Iesu yn Ioan 17 y byddai ei ddilynwyr yn un 'er mwyn i'r byd gredu'. Mae hynny'n golygu bod y ffordd y mae Cristnogion yn ymwneud â'i gilydd ynddi'i hun yn rhan o'n hefengylu.

Mae eglwys sy'n pregethu cymod ond yn ymddwyn yn gystadleuol yn anfon neges ddryslyd. Mae eglwys sy'n cyhoeddi un Arglwydd ond yn ymddwyn fel pe bai pob cynulleidfa'n adeiladu teyrnas ar wahân yn tanseilio'i neges ei hun.

Ond pan fo Cristnogion sy'n wirioneddol wahanol i'w gilydd yn gallu gweddïo gyda'i gilydd, gwasanaethu gyda'i gilydd a siarad yn dda am ei gilydd, serch hynny, daw rhywbeth arall i'r golwg.

Mae'r byd yn gweld nad yw ein hundod yn dibynnu ar fod yr un fath. Mae'n dibynnu ar Grist.

Nid yw hyn yn golygu anwybyddu anghytundebau gwirioneddol. Bydd eglwysi'n parhau i anghytuno ynghylch bedydd, y sacramentau, gweinidogaeth, trefn eglwysig, rhywioldeb, doniau carismataidd, awdurdod a llawer o faterion eraill. Mae rhai o'r anghytundebau hynny'n sylweddol, ac nid yw dymuno iddynt ddiflannu yn ddigon i'w datrys.

Ond nid oes angen i Gristnogion ddatrys pob cwestiwn diwinyddol cyn gallu bwydo'r newynog gyda'i gilydd. Nid oes angen inni ddeall llywodraeth yr eglwys yn union yr un ffordd cyn gallu gweddïo dros ein cymuned. Nid oes angen inni uno ein henwadau cyn gallu cydweithio i gyflwyno pobl i Iesu.

Nid a oes gwahaniaethau yw'r cwestiwn. Y cwestiwn yw a oes raid i'r gwahaniaethau hynny atal pob math o genhadaeth ar y cyd.

Ac yn aml, nid oes rhaid iddynt wneud hynny.

Efallai mai newid ein greddf yw un o'r newidiadau pwysicaf y gallwn ei wneud fel eglwysi.

Pan fo cynulleidfa arall yn ffynnu, dylai ein hymateb greddfol fod yn un o ddiolchgarwch.

Pan fydd eglwys arall yn dechrau gweinidogaeth dda, ni ddylai ein cwestiwn cyntaf fod, 'A ddylem ni ddechrau un ein hunain?' ond yn hytrach, 'Sut allwn ni eu cefnogi nhw?'

Pan fydd cymuned yn wynebu angen mawr, dylai ein greddf ein harwain i ofyn pa Gristnogion y gallwn gydweithio â nhw.

Wrth gynllunio cenhadaeth, dylem ofyn nid yn unig beth all *ein heglwys ni* ei wneud, ond beth all *yr Eglwys* ei wneud. Mae'r newid bach hwn mewn iaith yn datgelu newid llawer mwy yn ein dychymyg.

Oherwydd nid ymddiriedwyd y Comisiwn Mawr erioed i un traddodiad yn unig. Mae'n perthyn i holl bobl Dduw.

Bydd gan ein heglwysi hanesion, doniau, gwendidau a galwadau gwahanol. Ni fyddwn bob amser yn cytuno. Nid oes angen inni esgus fel arall.

Ond rydym yn addoli'r un Arglwydd, yn cyhoeddi'r un Crist atgyfodedig, ac rydym wedi ein hanfon i'r un byd.

Mae'r cynhaeaf yn rhy doreithiog. Mae'r angen yn rhy fawr. Mae'r efengyl yn rhy werthfawr. Ac mae'r Comisiwn Mawr yn rhy fawr i un garfan yn unig.



Meithrin calon ddi-drais

Cyfres o chwe astudiaeth gan **Rosa Hunt** ac **Ed Kaneen**, Caerdydd, sy'n ystyried y cwestiwn:
Sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais?

Calon ddi-drais 4

Dyma'r bedwaredd mewn cyfres o chwe astudiaeth sy'n ystyried y cwestiwn: sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais? Yn yr astudiaeth gyntaf, fe wnaethon ni ystyried gorchymyn Iesu i garu ein cymydog fel ni ein hunain. Gofynnon ni sut gallai caru ein hunain ein helpu ni i ymateb yn well i bobl sy'n anghytuno â ni. Yn yr ail, fe wnaethon ni ystyried beth sydd gan Iesu i'w ddysgu inni am beidio ag ateb trais â thrais, ac awgrymu taw gwrando'n dda yw rhan bwysig o hynny. Wedyn, fe wnaethon ni edrych ar yr hyn sydd gan Iesu i'w ddweud am sut mae barnu yn effeithio ar ein perthynas â'n gilydd.

Heddiw, byddwn yn edrych ar y teimlad o ddicter a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn cyfathrebu a gwrthdaro. Mae'n anodd iawn i ni ddelio â dicter – ein dicter ein hunain yn ogystal â dicter pobl eraill. Gall dicter achosi ofn a chwalu perthynas. Fodd bynnag, os caiff ei drin yn dda, gall dicter ddod ag egni ac angerdd i achosion pwysig, a hyd yn oed fod yn sbardun ar gyfer iachâd a thrawsnewid.

Mae rhywbeth gan Iesu i'w ddweud am ddicter:

Darlleniad: Mathew 5:21–6

Nid yw'r emosiwn neu'r teimlad o ddicter yn broblem ynddo'i hun; gall yr egni sy'n dod o ddicter fod yn sbardun i ddatrys problem neu anghyfiawnder. Hefyd, wrth gwrs, rydym yn gweld Iesu'n mynd yn grac yn y Beibl ac yn troi'r byrddau yn y deml. Felly, nid yw dicter yn gwbl ddrwg!

Y broblem yw'r gweithredoedd dinistriol sy'n deillio o'r dicter – trais ac ymddygiad ymosodol fel arfer. Fel y dywed Iesu, gall dicter yn ein calonnau droi'n naturiol iawn yn eiriau niweidiol neu hyd yn oed yn weithred dreisgar.

Nid yw rhai pobl yn cyfeirio'u dicter tuag allan, ond efallai eu bod yn sianelu'r emosiynau negyddol hynny tuag i mewn. Mae hyn yn anoddach i'w weld, ond mae'n gallu achosi iselder difrifol. Os mai fel hyn ydych chi, mae'n debyg eich bod yn gwybod hynny!

Mae dicter fel dŵr: os na fyddwn yn ei orfodi i lifo drwy'r sianeli priodol, gall achosi niwed. Hefyd, gall fod yn beryglus iawn i'w ddal yn ôl oherwydd gall ffrwydro'n sydyn.

Yn ei llyfr *How to Deal with Anger*, mae Isabel Clarke yn cynnig inni ddull o ddelio â dicter. Y cam cyntaf yw sylweddoli ein bod ni'n mynd yn grac. Mae'n bwysig iawn nabod yr arwyddion ynom ein hunain: ydyn ni'n teimlo'n boeth, a'n cyhyrau'n tynhau? Ydyn ni'n dechrau anadlu'n gyflym neu godi ein llais? Ydyn ni'n teimlo'n wael y tu mewn? Os ydyn ni, mae'n bwysig gweithredu cyn i ni golli rheolaeth. Arafwn ein hanadlu, ceisiwn roi lle ac amser i ni ein hunain i ystyried beth i'w wneud nesaf.

Wedyn, mae Isabel Clarke yn awgrymu bod gennym dri dewis – gyda chanlyniadau gwahanol bob tro.

Opsiwn 1: Ildio i'r dicter – gweiddi a sgrechian! Beth yw'r canlyniadau? Gall deimlo'n dda; rhyddhau'r emosiynau sydd wedi'u hatal ynom, a mynegi sut rydym ni'n teimlo. OND gall hefyd achosi niwed aruthrol i'r rhai o'n cwmpas, yn enwedig os bydd yn troi'n drais.

Opsiwn 2: Cadw'r dicter i mewn. Y peth da am hyn yw ei bod yn annhebygol y bydd gwrthdaro agored. Ond dydyn ni ddim wedi datrys y broblem; dydy tawelwch ddim yr un fath â chymod a heddwch. Mae'r opsiwn hwn yn beryglus mewn ffyrdd eraill, a dangoswyd bod iddo effeithiau negyddol ar iechyd y galon, lefelau straen ac iechyd meddwl. Yn y tymor hir, mae'r strategaeth hon yn gysylltiedig ag iselder.

Opsiwn 3: Rheoli ein dicter. Nid ydym yn anwybyddu ein dicter, ond nid ydym ychwaith yn ildio iddo. Mae gennym nawr gyfle i fanteisio ar ei agweddau cadarnhaol o ran egni a dewrder.

Yn ein darlleniad o Efengyl Mathew, rydym yn gweld Iesu'n awgrymu strategaeth sy'n swnio'n debyg i drydydd opsiwn Isabel Clarke: os ydym yn sylweddoli bod geiriau crac yn dod allan o'n cegau, mae'n rhaid i ni ddelio â'r broblem. Mae Iesu'n awgrymu bod cymodi â'n brawd yn bwysicach na dod i'r deml ac addoli. Mae'n ein hannog ni i reoli ein dicter ond nid ei anwybyddu, i geisio 'dod i gytundeb buan' gyda'r gelyn.

Her yr wythnos:

Ydyn ni'n ffeindio ein hunain yn mynd yn grac yn rhy aml? Beth a phwy sy'n ein gwneud ni'n grac? Beth mae hyn yn ei ddweud am gyflwr ein calon?

Beth yw'r arwyddion ein bod ni'n mynd yn grac?

Ydyn ni'n rhy araf i fynd yn grac? Doedd Iesu ddim yn grac gyda'i elynion, ond roedd e'n grac gyda'r anghyfiawnder a'r dioddefaint y mae pechod a hunanoldeb yn eu hachosi.

Oes unrhyw beth y dylech chi fod yn grac amdano?

Gweddi:

O Dduw Dad, helpa ni i ddysgu sut i adnabod ein dicter, sut i'w atal rhag ffrwydro, a sut i ddelio â fe'n ddiogel. Trwy ras dy fab Iesu Grist, trawsffurfia ein calonnau fel y bydd pob dicter treisgar yn cael ei ddisodli gan gariad a thrugaredd. Ond helpa ni yn hytrach i fynd yn grac dros anghyfiawnder. Dysg ni i fod yn debycach i Iesu a defnyddio egni ein dicter i ddod â'i deyrnas ef o dangnefedd a chyfiawnder. Yn ei enw ef, Amen.

BBC radio cymru S4C

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, Sul, 22 Tachwedd 2026

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 22 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau
yng nghwmni'r Prifardd Ifor ap Glyn

Oedfa Radio Cymru
Sul, 22 Tachwedd, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad
Steff Morris, Ffynnon, Llandysul

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 22 Tachwedd, am 7.30yh
Bydd rhaglen yr wythnos hon yn canolbwyntio ar ddathliadau Diwali yng Nghaerdydd.

Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr Pont Steffan



Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch Ysgol Sul Noddfa ar 18 Hydref, wedi ei llunio fel arfer gan Janet. Er bod sawl teulu wedi methu bod gyda ni, cafwyd oedfa hyfryd gan griw bach yn diolch i Dduw mewn pennill a chân am ei holl fendithion, gan gofio hefyd am y rhai sy'n dioddef.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Esther a hi hefyd offrymodd y weddi agoriadol. Cyhoeddwyd yr emynau gan Nansi, Flo, Eva a Siwan. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Delyth, gweddïwyd gan Elan a Beca, a'r llefarwyr oedd Siân RJ, Geinor Medi, a Llinos. Hefyd mwynhawyd adroddiad gan Lynwen ac unawdau gan Lowri Elen, Trystan Bryn a Tryfan. Pleser oedd gwrando ar y plant ieuengaf, sef Tryfan, Siwan, Mabli, Flo ac Eva yn canu a llefaru, pob un ohonynt yn rhoi o'i orau ac yn codi gwên. Roedd teuluoedd yr ysgol Sul a'r capel wedi dod â rhoddion ar gyfer y banc bwyd.

Diolchodd y Parchedig Densil Morgan i bawb a gymerodd ran am ein hatgoffa pam ein bod yn diolch, gan sôn eu bod wedi dod â bendithion i'n calonnau. Talodd werthfawrogiad i Janet, Llinos a'r rhieni am eu gwaith. Datganodd Janet ei diolch hithau i Alwena am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i bawb am eu cefnogaeth i'r ysgol Sul.

Wrth droi tuag adre, cytunai pawb ein bod wedi derbyn bendith wrth gydaddoli â'r ieuenctid mewn oedfa arbennig.

Hyfforddiant Diogelu: Gweinidogion

Mae hi'n amser i nifer o weinidogion adnewyddu eu hyfforddiant Diogelu, sydd bellach yn ofynnol bob tair blynedd. Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol wedi anfon negeseuon e-bost at y rhai yr effeithir arnynt. Os gwelwch yn dda, plis ymatebwch ac archebwch le ar un o'r cyrsiau sydd ar gael, naill ai ar-lein neu mewn person: https://panel.cymru/cy/hyfforddiant.

Os nad ydych yn siŵr pryd y gwnaethoch gwblhau eich hyfforddiant diwethaf, cysylltwch â'r Panel Diogelu drwy e-bost neu ffôn: 01745 817584 neu post@panel.cymru. Noder bod cadw'ch hyfforddiant diogelu'n gyfredol yn ofynnol ar gyfer Achrediad Gweinidog.

Encil gweinidogion Undeb Bedyddwyr Cymru

Cynhadledd Gweinidogion Bedyddwyr Cymru yn dychwelyd i Abertawe y flwyddyn nesaf, 15–16 Chwefror 2027!

Mae croeso i'n holl weinidogion ymuno â'r ddau ddiwrnod cyfoethog hyn o gymdeithas, mawl, sgyrsiau a seminarau, yn Eglwys Waterfront, Abertawe.

Thema Cynhadledd Gweinidogion Bedyddwyr Cymru 2027 fydd 'Gweithredoedd Cenhadol: Mewnwelediadau o'r Eglwys Fore i ysbrydoli a llywio ein harferion presennol' (Missional Acts: Insights from the early church to inspire and inform our present-day practice).

Mae'n bleser gennym groesawu'r Parchg Ddr Daniel McGinnis fel ein prif siaradwr, a'r Parchg Shayla Waugh fel ein hwylusydd addoliad a defosiwn.

Mae'r rhaglen lawn ar gyfer y ddau ddiwrnod ar gael ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru, yn ogystal â gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer teithio a llety. Y gyfradd gynnar yw £90, tan 31 Rhagfyr 2026 (a £100 wedi hynny).

EGLWYS GYMRAEG CANOL LLUNDAIN

(30 Eastcastle Street, Oxford Circus. W1W 8DJ)

OEDFA GOMISIYNU

NOA EVANS

yn WEITHIWR IEUENCTID DROS YR EGLWYS

SADWRN, IONAWR 30ain am 2:00 o'r gloch



CROESO CYNNES I BAWB

O Gefn Gwlad

Colofn Elfyn Pritchard

Diwylliant Ofn

Bu dirywiad rhyfeddol yn niferoedd yr aelodau yn ein Cyfundeb a chyfundebau eraill, ac yr ydym, lawer ohonom mi dybiaf, yn ceisio dod o hyd i'r rheswm neu'r rhesymau am y dirywiad hwn. 'Dalla i ddim peidio meddwl iddo ddigwydd, yn rhannol beth bynnag, oherwydd y camgyflwyno fu ar Gristnogaeth yn y gorffennol – hynny, a datblygiad addysg.

Yn nyddiau cynnar oedfaon bore a nos yn ein capeli, fe ddywedir mai arferiad poblogaidd oedd i bregethwyr fygwth tân a brwmstan yn y bore, a chynnig cariad a thrugaredd y nos. Patrwm o godi ofn a gweinyddu cysur yn y diwedd. Ni wn a yw hyn yn wir, ond gwn i lawer o'r codi ofn a ddigwyddodd yn sicr, rywsut rywfodd yn enw crefydd, dreiddio i'n hemynau, emynau y bu'n rhaid inni, blant, yn y gorffennol eu dysgu ar ein cof.

Rwyf wedi cyfeirio at rai ohonyn nhw fwy nag unwaith o'r blaen, ond rwy 'mhell o ddisbyddu'r rhai sy'n dal ar fy nghof. Daeth rhai eraill i'm meddwl yn ddiweddar – gan ryw George Lewis fu'n weinidog yn Llanuwchllyn:

Rhyfedd na buaswn 'nawr
Yn y fflamau,
Wedi cael fy nhorri i lawr
Am fy meiau.

Do, fe'i dysgais yn blentyn. Mewn difri! A'r emyn 'Ai marw raid i mi?', sy'n gyfieithiad digon gwael o un o emynau Charles Wesley, un arall oedd yn hoff o sgrifennu am wae. Fe'i cenais droeon mewn Seiat Goffa, a hynny gan gynnwys yr ail bennill:

Beth ddaw ohonof fi
'R ôl gadael daear lawr?
Tragwyddol wae, neu hedd di-lyth
A fydd fy rhan ryw awr.

Cysur mawr i aelodau teulu'r un a goffeid!

Ac un dyfyniad arall:

Enaid cu, mae dyfroedd oerion
Hen Iorddonen ddofn gerllaw.

Mae gen i frithgof imi hefyd rywbryd yn fy ieuenctid ddarllen cyfrol am y diwygiad oedd yn disgrifio pobol yn mynd adre o oedfaon yn wylo ac ochneidio mewn cloddiau a gwrychoedd, wedi eu llorio'n llwyr gan yr hyn a glywsent rai munudau ynghynt gan Genhadon Hedd y Methodistiaid ac eraill – hedd yn wir!!

Roedd drws yn nenfwd ein festri ni gartref, ac yn ôl ein hathrawon ysgol Sul roedd y diafol yn byw yn y nenfwd. Pan fyddai'r drws ar gau, byddai yno yn cysgu; pan fyddai'n agored, byddai rywle yn y byd yn gwneud ei anfadwaith. Ond pan fyddai'n lled agored, byddai yno yn ein gwylio, ei lygaid mawr mileinig yn edrych drwom. Ffordd i'n rheoli, mae'n siŵr, ond fe'i derbyniem gan y credem fod popeth a ddywedai ein hathrawon ysgol Sul yn efengyl.

Oes ryfedd bod cynifer wedi troi cefn ar y fath lol, ac ar rethreg ddisynnwyr? Ar gyflwyno celwyddau fel gwirionedd? Ac ar y syniadaeth anaeddfed mewn cymaint o emynau? Diarddelwyd yr holl a ddyfynnais o *Caneuon Ffydd*, ond yn rhy hwyr i adfer y sefyllfa, beryg.

Mae'r fath agwedd wedi mynd yn llwyr o Gymru erbyn hyn – wel, bron yn llwyr. Gwn am ambell bregethwr sy'n dal i bregethu'r feddylfryd hon, gan fygwth y tân tragwyddol ar bawb na chafodd ei 'achub'.



Awgrymais ar y dechrau fod yna, yn cydredeg â'r syniad rhyfeddol hwn, ddatblygiad mewn addysg fel rheswm arall am y dirywiad. Fe newidiodd pobol eu meddwl a'u hagwedd pan ddaeth addysg i'w goleuo, a chyflwyno iddyn nhw ddarlun gwahanol o fywyd. Pan gafwyd dehongliadau gwahanol sut y daeth y byd i fod, gwahanol iawn i Genesis. Pan ddaeth addysg, os mynnwch, i'n callio. Ond, yn anffodus, ni lwyddodd agweddau at grefydd i newid yn sgil gwybodaeth a meddylfryd gwahanol. Methodd ymateb i ddatblygiadau mewn syniadaeth megis gweithiau rhai fel Darwin, gan gilio yn hytrach y tu ôl i ddatganiadau penagored megis nad yw crefydd yn ei hanfod yn newid, ac i syniadau simplistaidd rhai efengylwyr a llythrenolwyr. Rwy'n cydnabod nad hawdd mewn byd sy'n mynd yn fwyfwy materol yw cyfleu'n ddealladwy y syniad o ysbrydolrwydd.

A yw'n rhy hwyr bellach i wneud hyn, ac i ddatgan a phregethu tosturi a chymod yn ein byd cythryblus? Argyhoeddi pobol mai cariad yw gwirionedd sylfaenol ein crefydd? Gobeithio nad ydyw. Ond pan mae'r nos yn dywyll a fflam gobaith yn isel yn fy hanes, rwy'n ofni ei bod.

Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion: Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru**
ar 01745 817584
neu 07957 510346
yn ystod oriau swyddfa
neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111**
am gyngor tu allan i oriau swyddfa.